# Y DINESYDD

MEHEFIN 1978 | *PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH* | RHIF 50

# Gŵyl Ifan

**Yn y blynyddoedd diweddar gwelwyd adfywiad mawr ym myd y ddawns werin yng Nghymru. O dan arweiniad y diweddar Mrs Lois Blake, Mrs Alice Williams a Mr Emrys Cleaver mae Cymdeithas Ddawns Werin Cymru wedi tyfu o nerth i nerth, gan drefnu cyrsiau a gwyliau dawns ledled y wlad. Gwelwyd yr adfywiad yma yn Eisteddfod yr Urdd yn y Barri y llynedd lle y bu rhyw hanner cant o bartion yn cystadlu. Er mai plant oedd y rhan fwyaf o'r cystadleuwyr hyn gallwn yn awr ymfalchïo yn y ffaith bod rhyw ddwsin o gwmnïau oedolion yn dawnsio'n rheolaidd trwy'r flwyddyn. Sylweddolwyd hyn gan Gymdeithas Dawns a Chanu Gwerin Lloegr pan ofynnwyd i Gwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd ymddangos yn eu gŵyl flynyddol yn y Neuadd Albert yn 1977.**

**Am nifer o flynyddoedd bu dirywiad yn y byd dawnsio gwerin yng Nghymru. Digwyddodd hyn am nifer o resymau, yn bennaf efallai oherwydd y troi o'r drefn amaethyddol i'r drefn ddiwidiannol sydd ohoni heddiw. Tanseiliwyd credoau syml y dyn traddodiadol gan resymeg oeraidd ein bywyd presennol. Yma yng Nghymru ychwanegwyd at ein anhawsterau gan i'r rhan fwyaf a ddangosodd diddordeb yn ein dawnsfeydd fethu ar yr iaith Gymraeg. Amhosib fyddai hi wedi bod i Cecil B. Sharpe, arwr dawnsio gwerin yn Lloegr, i gasglu hynafiaethau yng Nghymru. Efallai petai wedi, y byddai'r dawnsfeydd wedi colli peth o'u hansawdd. Nid oedd casglyddion Cymraeg eu hiaith pan oedd y ddawns werin yn ei bri ac rydyn ni yng Nghymru braidd yn esgeulus o'n hetifeddiaeth ac ni throsglwyddwyd llawer o'r dawnsfeydd o'r gorfennol.**

Er bod llawer o'n dawnsfeydd wedi eu colli, erys cryn nifer, wedi eu nodi gan sylwedyddion yn hytrach na dawnswyr ac yn aml wedi ei cyfieithu. Gyda cenhedlaeth newydd o ddawnswyr profiadol yn tyfu mae hen ddawnsfeydd ein cenedl wedi cael adfywiad. Mae ymchwil wedi ei wneud i'r dogfennau gwreiddiol ac mae'r cwmnïau dawns yn awr yn ymgeisio at berfformio'r dawnsfeydd yn eu ffurfiau gwreiddiol. Gyda'r tyfiant yma sylweddolwyd yr angen am wyliau dawns. Bu'r Gymdeithas Ddawns Werin yn arloesi'r maes yma yn y blynyddoedd diweddar gan gynnal gwyliau yn flynyddol. Dilynwyd y gwaith yma y llynedd gan Gwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd trwy ddathlu Gŵyl Ifan ym mhentre Nantgarw. Yn y ganrif diwetha bu pentrefwyr Nantgarw a'r Groeswen yn dawnsio yn y ffeiri caws a gynhaliwyd yng Nghaerffili, cofiwyd nifer o'u dawnsfeydd gan Mrs Margretta Thomas a nodwyd hwynt gan ei merch y Dr. Ceinwen Thomas, Coleg y Brifysgol Caerdydd. Penderfynnwyd galw'r ŵyl yn Ŵyl Ifan oherwydd dyma un o ddawnsfeydd mwya poblogaidd yr ardal. *Cynhelir yr ŵyl unwaith eto eleni ar ddydd Sadwrn, Mehefin 24.* Ar y dydd bydd rhyw gant o ddawnswyr yn ymgasglu ben bore i deithio o amgylch y Fro, a Chaerdydd a'r cylch. Erbyn 4.00 y prynhawn byddant wedi cyrraedd Nantgarw i gyd-ddawnsio yn y pentre. Bydd cyfle i bawb ymuno ac hefyd i dorri syched yn y Cross Keys lle y gwelwyd nifer o'r dawnsfeydd hyn yn wreiddiol. Gorffennir y noson gyda gwledd a Thaplas yng Nghastell Caerffili. Mae tocynnau ar werth am y wledd £3 y pen ac am y Taplas yn unig 50c. Am fanylion pellach cysylltir â

J.D. James, 29 Fairwater Grove West, Tyllgoed, Caerdydd 563989, neu

Eirian Davies, 23 Rawden Place, Riverside, Caerdydd 372015.

*Dewch o brysur cewch weld dawnswyr*
*Dwys o gwmpas dewis gampwyr,*
*Difalch, ufydd, llawn llawenydd*
*Hardda'i golwg ar bob gwylddydd.*

## *Dinesydd* yn 50 oed!

**Hwyrach ichi ddarllen y dudalen hon heb sylwi ar rif bach ar ben y dudalen. Edrychwch eto ac fe'i gwelwch. Ydy, mae'r *Dinesydd*, eich papur bro chi, wedi cyrraedd ei 50 oed!**

**I ddathlu'r achlysur (ac i longyfarch y papur!) byddwn yn paratoi rhifyn arbennig y tro nesaf. Byddwn yn edrych yn ôl ar y 50 rhifyn trwy lygaid y *Dinesydd*. Felly cofiwch am y rhifyn arbennig — pwy a ŵyr, efallai y bydd eich llun chi ynddo!**




*R. Alun Evans, Llywydd Eisteddfod yr Urdd, Llanelwedd. Gwelir rhan o'i araith ar dudalen 4.*

*— llun Cen Williams*

LLONGYFARCHIADAU i Mr John Brace, Cyfarwyddwr Addysg Canol Morgannwg ar ei benodi'n Ysgrifennydd i'r Cyd-Bwyllgor Addysg Cymreig. Fe fydd yn olynu Mr Andrew Davies yn y swydd hon.

Nos Lun, 19 Mehefin...... am 7.30 o'r gloch...... yn Festri Minny Street. Tocynnau 50c.

Yr elw tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol. Noson amrywiol o ganu gwerin, cerdd dant, adrodd a chanu corawl. Trefnir y noson gan Alun Davies a'i gyfeillion fel ymdrech Capel Minny Street i godi arian i'r Eisteddfod.

# O'R POST

**Mynegwyd pryder mawr yn ddiweddar ynglŷn â safon ac ansawdd y llythyron sy'n ymddangos yn y Wasg Gymraeg. Fe'ch annogir felly i'n cynorthwyo i newid y sefyllfa ddybryd yma. Er mwyn hyrwyddo'ch gwaith mae llythyr nodweddiadol Gymreig yn dilyn, sy'n addas at unrhyw sefyllfa neu achlysur. Cewch 150 o gopiau am ugain ceiniog — archebion i'r golygydd. Yn y cyfamser byddwch cystal â'i gopio ar ddarn o bapur a'i anfon atom ni. Dileer lle bo angen......**

GWARTH

Annwyl Olygydd,

Fel un sy'n ymdrechu ers blynyddoedd lawer i ddiogelu'r pethau hynny sydd mor agos at ein calonnau ni, a gaf i fynegi fy siom ddirfawr ynglŷn â'r digwyddiadau gwarthus a gafodd gymaint o sylw yn y wasg yn ddiweddar. Prin bod raid atgoffa neb pa mor enbyd yw sefyllfa ein diwylliant heddiw. Yn wyneb y trychineb hwn sut ar y ddaear y gall y llywodraeth/Cyngor Sir Gwynedd/Y Swyddfa Gymreig/y BBC/HTV/y capeli/y Tafarnau/Y Western Mail/detholwyr y tim rygbi cenedlaethol/Cyngor y Celfyddydau, gyfiawnhau eu cynlluniau cywilyddus presennol?

Golyga hyn y bydd un o bileri cadarnaf y byd Cymraeg yn mynd i'r pedwar gwynt. Ni allant roi'r bai ar ddiffyg arian; i'r gwrthwyneb, diffyg penderfyniad, ymdrech, dychymyg ac, yn waeth na'r cwbl, diffyg parch tuag at yr iaith/y genedl/yr ysgolion Cymraeg/yr henoed/gwerin Cymru/yr iaith/pris cwrw/yr iaith sydd yn gyfrifol am y gwrthuni hwn.

Apeliaf yn daer felly ar ddarllenwyr y papur hwn, fel Cymry, i gefnogi'r achos, i fynnu ein hawliau, i gyfrannu'n hael, i weithio'n ddiwyd, i lythyra'n egnïol, i gofio Tryweryn ac i sefyll gyda ni yn y bwlch.

Llofnod

****************************

*Annwyl Olygydd,*

*Rwy'n cofio mynd i gyfarfod brwdfrydig, diddorol yn y Sherman beth amser yn ôl bellach — i weld cymdeithas newydd yn cael ei ffurfio a'i bedyddio. Cymdeithas Cyfeillion y Theatr yng Nghaerdydd neu rywbeth. Cyfarfod llawn brwydfrydedd oedd e, a dywedwyd y byddai'r Gymdeithas hon yn sicrhau y byddai pob un a dalai swm o arian (£1, rwy'n meddwl) i'r Gymdeithas yn cael gwybodaeth am bopeth o bwys ym myd y theatr yn y ddinas. A chan wybod fod hwn yn syniad da, dyma fi'n talu fy mhunt, ac yn disgwyl.*

*A dyma fi'n awr yn darllen yn rhifyn diwetha'r Dinesydd am ryw gwmni eisteddfod wedi bod yn perfformio drama, Yr Wylnos yn y Bute. Clywed wedyn fod cystadleuaeth ddrama'r Eisteddfod wedi bod yn Y Crwys — noson fythgofiadwy yn ôl a glywais, a bod cwmni drama wedi bod i lawr yn Rhiwbeina yn perfformio. Rwy'n digwydd bod yn aelod o Gymdeithas Theatr Cymru ac fe ges wybod am berfformiad diweddaraf y cwmni hwnnw yn y Sherman, er i mi fethu mynd. Chlywais i ddim byd, chwaith, am Rhydwen Williams a'i Ddaniel Owen rywle yn y Sherman. Piti hefyd achos roedd y perfformiad wedi bod cyn i mi glywed dim byd amdano. Ac mae'n ddigon posibl, wrth gwrs, fod llu o bethau eraill wedi digwydd na chlywais i ddim byd amdanyn nhw.*

*Tybed a fyddai hi'n bosibl cael gwybod beth sydd wedi digwydd i'r Gymdeithas?*

*UN SY'N HOFFI DRAMA.*
*Mai 1978.*

*Annwyl Olygydd,*

*Darllenais gyda diddordeb mawr eich llith olygyddol yn y Dinesydd ddau rifyn yn ôl pan ddywedasoch fod llu mawr o Gymry da yn barod i helpu'r Eisteddfod dim ond fod rhai pobl arbennig yn cadw draw.*

*Gan ein bod yn gwybod nad oes neb sy'n debyg o gythruddo'r bobl hyn yn mynd i ddod i'r Eisteddfod, tybed a fyddech mor garedig â rhoi eu henwau i mi, fel y gallaf gysylltu â nhw.*

*Mae galw mawr am gymorth gyda'r pafiliwn (gwnaed yng Nghymru), stiwardio, yn y bwth tocynnau ac mewn cant a mil o fannau eraill.*

*Yr eiddoch yn eiddgar,*
*W.J. JONES,*
*(Ysgrifennydd i'r Pwyllgor Gwaith).*

# Calendr yr Eisteddfod

**Dydd Llun, Mehefin 5, 10.00a.m. — Agor siop ail-law a bron yn newydd yn 88 Cowbridge Road East, Caerdydd.**

**Sadwrn 10 Mehefin — Gŵyl Trelai yn Grand Avenue, Trelai, 2.00p.m.**

**Gŵyl Fawr Gymreig gydag arddangosiadau, corau, dawnsio a bandiau yn llenwi'r ardal gan orffen gyda disco awyr agored yn yr hwyr. Prif Atyniad: Milltir o ddwygeiniogau.**

**Sadwrn 10 Mehefin — Garddwest Coedarhydygl cartref Syr Cennydd a Ledi Traherne. 2.30–5.00p.m. Tocynnau £1.**

**Sadwrn 17 Mehefin — Garddwest ym Mhenarth, cartref Syr Alun a Ledi Talfan Davies. Tocynnau yn unig.**

**Sadwrn 17 Mehefin — 2.30p.m. FFAIR A CHARNIFAL Y TYLLGOED. Ar y "Green" os yw'r tywydd yn braf, yn Eglwys Sant Pedr os yw'n bwrw glaw.**

**Nos Lun 19 Mehefin — 7.30p.m. yng Nghapel Minny Street. "Sain, Cerdd a Chân". Mynediad: 50c.**

**Nos Wener 30 Mehefin — Dawns yr Arglwydd Faer. Tocynnau yn unig.**

**Sadwrn 8 Gorffennaf — GŴYL FAWR CASTELL CAERDYDD. 12.00–6.00p.m. Diwrnod i'r teulu yng Nghastell Caerdydd, gyda bandiau, dawnsio gwerin, ymarfer corff, arddangosfeydd gan yr ysgolion, stondinau, chwaraeon, etc. Te Cymreig hefyd a mefus a hufen. Mynediad: 25c. Plant 10c.**

**Sadwrn 5 Awst — Cyngerdd Corau Meibion a Bandiau Pres ym Mhafiliwn yr Eisteddfod. Arweinydd: Owain Arwel Hughes. Tocynnau: £2 a £1.50.**

**Sul 6 Awst, 8.00p.m. — Cyngerdd Operatig ym Mhafiliwn yr Eisteddfod, gyda Syr Geraint Evans, Anne Edwards, Maureen Guy a Kenneth Bowen, Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Simffoni Gymreig y BBC. Arweinydd: Owain Arwel Hughes. Tocynnau: £4, £3, £2.**

**7—12 Awst — YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YM MHENTWYN.**

## SYMUD A NEWID

Mae Mr D.J. Thomas wedi rhoi'r gorau i fod yn Gadeirydd Bwrdd Rheoli Theatr yr Ymylon ar ôl pedair blynedd o wasanaeth i'r Cwmni. Heblaw am lywio twf a datblygiad y Cwmni dros y blynyddoedd diwethaf, cyfarwyddodd D.J. (cyn-gynhyrchydd gyda BBC Cymru) nifer o gynyrchiadau'r cwmni ei hun, cynyrchiadau fel *Blodeuwedd* a'r rhaglen Ffrengig, *Chwerthin o Bell* Arthur Morris-Jones, gŵr adnabyddus ym maes y theatr yng Nghaerdydd sydd yn ei olynu fel Cadeirydd.

Tra'n diolch i D.J. am ei gyfraniad gwerthfawr i'r theatr Gymraeg, carem hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda iddo ef a'i briod yn eu cartref newydd; byddant yn symud o Gaerdydd ym mis Gorffennaf ac yn ymgartrefu yn Abertawe.

## *Neges i bob copa Walltog!*

Bydd pobl Caerdydd yn cael cyfle i dorri gwallt ar un diwrnod ym mis Awst, gan wybod bod yr arian fyddan nhw'n dalu i'r barbwr yn mynd tuag at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Mae Mr Odysseus Constantinou a'i Feibion, yn 99 Heol y Crwys, yn bwriadu rhoi holl dderbyniadau diwrnod agoriadol y salon sy'n awr yn cael ei hadnewyddu, i gronfa'r Eisteddfod.

Fe gynhelir y diwrnod arbennig ar yr Ail o Awst, a byddan nhw ar agor y diwrnod hwnnw o wyth o'r gloch y bore tan naw y nos.

*Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru.*

# Gŵyl o Ddrama

**Bydd gwledd o ddrama yn Steddfod Caerdydd. Mae gan y ddinas ddwy theatr arbennig ac fe fydd rhain yn cael eu defnyddio i'r pen yn ystod yr wythnos. Gan fod y ddwy theatr yn theatrau proffesiynol, mae pob cymorth ar gael i'r gwahanol gwmnïau, ac rwyn siwr y cawn berfformiadau da a phroffesiynol!**

I ddechrau yn y Theatr Newydd ar y nos Lun a'r nos Fawrth perfformir drama gomisiwn Gwenlyn Parry, a'r ddau brif gymeriad yn cael eu chwarae gan Maureen Rhys a John Ogwen — dyna beth fydd gwledd siwr o fod!

Newid byd yn gyfangwbl ar y nos Fercher a'r nos Iau — Theatr yr Ymylon yn perfformio opera roc yn seiliedig ar fywyd Dic Penderyn — gobeithio bydd hwn yn torri tir newydd.

Ar y nos Wener a'r nos Sadwrn, famau Caerdydd nodwch — Pasiant Caerdydd gan blant ysgol Gymraeg Bryntaf. Mae'r plant a'r athrawon wrthi'n barod yn dysgu ac yn ymarfer. Mae deuddeg cant o seddau yn y Theatr Newydd — a bydd pob un wedi'i llenwi y ddwy noson.

Am dair noson — nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher disgwylir perfformiadau gwefreiddiol — myfyrwyr Coleg y Brifysgol, Aberystwyth yn llwyfannu "Blodeuwedd" gan Saunders Lewis. Wyres yr awdur sy'n cymryd y brif ran. O ie, yn Theatr y Bute yn y Coleg Cerdd a Drama y perfformir hon.

Os nad yw'r uchod yn plesio, beth am raglen y Sherman — bydd y ddwy theatr, yr un fach a'r un fawr, yn gweithio yr un pryd — mwy na thebyg y byddwch yn gallu dod o hyd i rywbeth sy'n addas i chi. Beth am ddechrau gyda'r Sherman fawr — nos Lun a nos Fawrth fe ddangosir ffilm — ffilm Gymraeg. A dyna beth yw torri tir newydd. Nid yn unig y bydd y ffilm yn cael ei dangos, ond caiff yr awdur, y cyfarwyddwr a'r prif actorion gyfle i sgwrsio am eu gwaith.

Ar y nos Fercher a'r nos Iau, cynhelir cystadlaethau actio drama — dyna un o brif atyniadau'r rhaglen ddrama ymhob Eisteddfod Genedlaethol — ac 'rwyn siwr y bydd hi run fath eleni. A chyda llaw mae cwmni drama Heol y Crwys, Caerdydd, drwodd i'r llwyfan yn y gystadleuaeth actio agored.

Nos Wener a nos Sadwrn — dyma gyfle'r cwmni lleol. Fe fyddan nhw yn perfformio *Nos Ystwyll* dan ofal R. Alun Evans.

Yn awr at raglen yr Arena — fe fyddwch wedi eich boddi gan weithgareddau drama cyn diwedd yr wythnos! A dwy ddim wedi sôn dim eto am raglen Theatr Fach y Maes. Nos Lun yn yr Arena, perfformiad gan fyfyrwyr cwrs blwyddyn Coleg Cerdd a Drama Cymru, nos Fawrth a nos Fercher Theatr O yn perfformio "Pry ar y Pren", ac am y tair noson sydd ar ôl — Sioe Bypedau gan Jane Phillips.

Fe fydd Jane Phillips yn brysur iawn oherwydd ar faes yr Eisteddfod pnawn Llun, Mawrth a Mercher, fe fydd y Theatr Bypedau yn perfformio eto i'r plant. Mae'r Pwyllgor Drama eleni wedi gwneud yn siwr bod y plant yn y Steddfod yn cael eu diddori. Bob dydd am ddau o'r gloch, mae awr yn cael ei neilltuo iddyn nhw — Jane Phillips am dri diwrnod, Adrannau Plant y BBC a HTV am ddau ddiwrnod. Ac ar y dydd Mercher, mae dwy awr iddyn nhw, gan fod plant Ysgol Penweddig yn dramodi rhai o helyntion 'Y Llewod' gan Dafydd Parri. Bargen yn wir!

Nid dyma'r unig beth. Rhwng deuddeg ac un o'r gloch bob dydd ceir cyfres o sgyrsiau ar "Y Ddrama Deledu" yn cynnwys cynhyrchu, sgrifennu, cynllunio etc. Wrth gwrs, ceir y beirniadaethau arferol a chyflwyno Tlws yr Eisteddfod am Ddrama Hir.

Mae'r rhaglen drwy'r wythnos yn llawn — mwynhewch bob munud!

PAT GRIFFITHS.



*Seremoni'r Cadeirio yn Ffair Trelai a gynhalwyd dydd Sadwrn, Mehefin y 10fed. Sylwch ar yr holl enwogion yn y llun!* — *llun Cen Williams.*

## Cydymdeimlo

Carem gydymdeimlo'n ddwys â Henri Davies (perchennog Gwasg Cleglen, sy'n argraffu'r papur hwn a llawer cyhoeddiad Cymraeg arall) a gollodd ei dad yn ddisymwth ddiwedd mis Mai. Yr oedd Dr. Davies yn gymeriad adnabyddus yng Nghaerdydd, a bydd amryw ohonom yn gweld colled fawr ar ei ôl.

Carem estyn ein cydymdeimlad i Arwel a Wynford Elis Owen yn eu profedigaeth o golli eu mam yn ddiweddar.

## NEWID AELWYD

Mae Delyth a Dave Taylor yn symud o Cathays i Heol Sant Helen. Cymraes o'r Barri ydy Helen, ac mae ei gŵr, hefyd, yn prysur ddysgu'r iaith. Fu'r iaith ddim yn broblem i'w dau blentyn, Sara a Rhian sy'n ddisgyblion yn Bryn-taf. Pob lwc iddyn nhw ar eu haelwyd newydd.

Mae Eleri ac Alan Rees yn symud o Cathays i Heol Crystalwood. Mae Eleri'n fargyfreithiwr a'i gwreiddiau'n ddwfn yn naear gogledd Ceredigion a bro Llanfihangel Genau'r Glyn. Myfyriwr yw Alan sy'n gobeithio gorffen ei gwrs mewn meddygaeth gyda hyn.

CLEGLEN
Argraffwyr
Ffôn:
Caerdydd
(0222)
396262

# Anerchiad y Llywydd — R. ALUN EVANS

**Mae Powys wedi newid ei chymeriad a'i maint. Y Powys yr oeddwn i'n ei nabod yn blentyn oedd yr hen Sir Drefaldwyn. Calon y genedl i mi. Ond a Phowys bellach yn ymestyn, yn gwbwl afreal os nad yn gwbwl anymarferol o Lanfyllin i Ystradgynlais nid calon y genedl mo'r dalaith bellach ond yr asgwrn cefn.**

Tydw i ddim yn feddyg ond rwy'n deall mai un o nodweddion asgwrn cefn yw ei fod yn gadarn ac eto'n ystwyth; yn gallu plygu ond nid yn ormod felly. Dim ond rhan o'r corff yw'r asgwrn cefn ond mae'n diogelu'r nerf hwnnw sy'n cario neges i bob cwr o'r corff. Os torrir yr asgwrn cefn bydd rhan o'r corff yn ddiffrwyth. Mae cyfrifoldeb Powys yn anferth.

Lle mae angen y cadernid a'r ystwythder ar Gymru? I warchod y bwlch rhwng dwy genedl anghyfartal eu maint. Ystwythder am ein bod ni, Gymry Cymraeg, yn lleiafrif yn ein gwlad ein hunain. Ond mae'r cynnydd aruthrol yn ystod y deng mlynedd diwethaf o'r bobol *ifanc* hynny, yn arbennig, sydd eisiau dysgu'r iaith — ac yn llwyddo trwy ymroddiad athrawon diflino, brwdfrydig — yn galondid. Bydded i holl athrawon ein cylchoedd meithrin, ein hysgolion cynradd ac uwchradd, ein colegau hyfforddi a'n Prifysgolion gael digon o egni i fod yn Gymry da. Yn asgwrn cefn cadarn ac ystwyth o fewn y sistem addysg.

Fe ddwedais i fod asgwrn cefn hefyd yn gallu plygu ond nid yn ormod felly. Yma mae angen gofal. Nid plygu dan bwysau y mae'r asgwrn cefn — ond plygu i godi'r pwysau. A diolch i Bwyllgor Addysg Gwynedd i ni weld yn ddiweddar esiampl o beidio a phlygu dan bwysau cyhuddiadau digon amheus. Plygu y mae Gwynedd yn unig i gynnig llaw i blant i gael gafael ar ddiwylliant ychwanegol.

A dyma'r neges o Wynedd i Went — o'r pen i'r traed — y mae'n gyfrifoldeb ar yr asgwrn cefn yma ym Mhowys ei diolgelu.


Mae'r ddadl ers talwm nad oes gwerth masnachol i'r iaith Gymraeg wedi hen fynd heibio. Gormod o werth sydd i'r Gymraeg erbyn hyn. A drwgdybiaeth dybryd ein bod ni'r Cymry Cymraeg yn creu swyddi i ni ein hunain. Ond fyddai hi ddim yn anodd profi, mewn cyfnod o lygredd gwleidyddol sy wedi magu siniciaeth yn ei sgil, nad gan y Cymry Cymraeg y mae'r monopoli ar greu swyddi iddynt eu hunain. Elw'r genedl sydd geno ni mewn golwg nid elw personol. Mae *angen* creu swyddi. A gorau oll pe gellid creu digon o swyddi i'r rhai hynny sy wedi gorfod gadael Cymru i ddychwelyd o ysgolion a ffatrioedd ac ysbytai a labordai a gweithfeydd gwledydd eraill i gyfoethogi eu gwlad eu hun. Towlwch y Cymry allan o Loegr!

Rydw i am weld Cymro Cymraeg a di-Gymraeg yn meddwl fel Cymro — am weld y brwdfrydedd sy'n deillio o lwyddiant ein tîm rygbi cenedlaethol yn datblygu i fod yn falchder gwirioneddol, nid mewn llwyddiant ond mewn cenedligrwydd. Rydw i am weld Cymru yn chware'i rhan ymhlith cenhedloedd eraill Ewrob a holl genhedloedd y byd. Ac yn gwneud hynny fel cenedl, nid fel atodiad i genedl arall.

Oes modd tybed i fudiad yr Urdd helaethu cryn dipyn ar ei gweithgarwch cydwladol? Creu sefyllfaoedd, trefnu teithiau a chynhadleddau, dwyn pobol ifanc o wahanol ieithoedd, ac arferion a thraddodiadau at ei gilydd wyneb yn wyneb i rannu profiadau a rhannu gwybodaeth i'n cadw ni rhag bogeleiddio'n ormodol ar ein anhawsterau ein hunain. Byddai'r ymarfer o egluro i bobol eraill beth yw ein Cymreictod ynddo'i hun yn ymarfer da. Tyde ni ddim yn trafferthu hanner digon i egluro'n ofalus, ac weithiau'n boenus amyneddgar i bobol beth sy'n ein gwneud ni yn Gymry sy'n meddwl fel yr yde ni'n meddwl, yn credu fel yr yde ni yn credu ac felly yn gweithredu fel yr yde ni'n gweithredu.

Ysgwn i beth yw gwir arwyddocâd lleoli Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y rhan hon o Bowys? Ystyriaethau economaidd meddai pobol; dyna fo i chi ar ei ben. Lleihau'r costau trwy ddefnyddio adeiladau'r Sioe Amaethyddol. Lle hwylus i'w gyrraedd; hanner ffordd rhwng De a Gogledd rhwng Bae Ceredigion a Chlawdd Offa. Os felly — fe allwn ni trwy ddod i Lanelwedd gael mwy nac y bargeiniwyd amdano. Tybed a all cenhedlaeth gyfan o ieuenctid Cymru ddod o fewn taro i Gilmeri heb gael yma fwy na lle hwylus i barcio. Dyma'r wythnos i helpu'r fro hon i fwynhau'r ymwybyddiaeth o Gymreictod ifanc a hapus. Tybed oni ellir chwystrelli i wythiennau aelodau o'r Sioe Amaethyddol — sy'n fawr eu cymwynas a pharod eu cydweithrediad — chwa o Gymreictod a bery am o leia chwech wythnos fel y gwelir tipyn mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg hyd y maes hwn pan ddaw'r Sioe honno yn ôl i'w chynefin — defnydd ar bared ac ar dafod.

Peth felly yw ymweliad yr Urdd ag unrhyw fro. Ellir mo'i gyfyngu i ystyriaethau economaidd yn unig. Peth felly yw mudiad yr Urdd. Ellir ddim cyfyngu ar ei ddylanwad i un math o Gymro yn unig. Mae lle cynnes o fewn y mudiad hwn i bawb sy'n meddwl fel Cymro — o bob argyhoeddiad gwleidyddol a chrefyddol. Dyma'r wythnos i ni ddangos bod hwyl i'w gael wrth fod yn Gymro. Nid â gwaewffyn yr amddiffynnir Cymru mwyach ond â chwrteisi ein argyhoeddiad.




*Dai Dafies, gol-geidwad Cymru a Wrecsam yn gweld ei hun yn "Dyddiadur y Dyn Dwad".*
*—llun Cen Williams.*

ALLAN RWAN!
**DYDDIADUR DYN DWAD**
gan GORONWY JONES
**— BLYDI GRÊT!**
**12 O STRAEON (4 NEWYDD SBON)**
**& CARTŴNAU FFANTASTIG**

*Cyhoeddiadau Mei*
*Bryn Mair, Dolydd, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd.*

# O Steddfod yr Urdd






Penderfynodd Vaughan Hughes fod yr enwog Mistar Urdd yn edrych mor drist fel mai 'r unig ateb oedd cael cymar iddo. Yn dilyn awgrym Vaughan crewyd MISS URDD hardd, fenywaidd. Clywyd y bydd y seremoni briodas yn cael ei dangos ar 'Y Dydd' cyn hir.




— llun Cen Williams.

## LLYFR FFWLBART

Bu LLYFR FFWLBART yn llwyddiant mawr yn Eisteddfod Llanelwedd lle gwerthwyd bron 900 o gopiau i gyd. Carem ddiolch o galon i bawb a helpodd i wneud cyhoeddi'r llyfr hwn yn fenter mor llwyddiannus, ac yn arbennig i'r Urdd am ganiatáu i ni werthu ar y maes, ac i Gwmni Cyhoeddwyr Cleglen am roi benthyg fan i ni — bu'r cerbyd hwn yn siop ar y maes, yn lloches rhag y glaw mawr ac yn llety dros nos i'r gwerthwyr hefyd! Diolch hefyd i Mici Plwm, Myfanwy Talog ac Olwen Rees o'r rhaglen deledu Teliffant, ac i Dai Davies, gôl-geidwad Wrecsam a Chymru, am ddod i arwyddo copiau o'r llyfr i'r plant. Roeddynt hwy yn atyniad mawr a diolch iddynt am roddi mor hael o'u hamser.




*Arddangosfa'r Sir yng Nghystadleuaeth 'Hei Dyma'r Urdd'.* — *llun Cen Williams.*



*Parti Meibion Aelwyd Caerdydd a ddaeth yn gyntaf yn eu cystadleuaeth dan arweiniad Gareth Glynne Davies.* — *llun Cen Williams.*

# O'R PAFILIWN: Hoelion Wyth y Brifwyl



## Gŵyl y Castell

**Mae llawer o bobl wedi dweud o bryd i'w gilydd ei bod yn drueni na fyddai'r Eisteddfod yng nghanol y ddinas i bobl gael gweld bod na Eisteddfod. Wel doedd hynny ddim yn bosibl — ond yn awr mae Gŵyl Fawr yn cael ei threfnu yng Nghastell Caerdydd fis cyn yr Eisteddfod er mwyn hysbysu pawb a phobun fod Prifwyl Cymru yn dod i Brifddinas Cymru.**

**Sut ŵyl fydd Gŵyl y Castell? Yn syml, diwrnod o adloniant i'r teulu'n gyfan, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, yn Saeson ac yn bobl o genhedloedd eraill sy'n byw yn ein plith. Mae i'r Ŵyl ei theitl Saesneg – "Castle Day" yn ogystal â theitl Cymraeg: "Gŵyl y Castell". Fe fydd yna fandiau a gymnasteg, Taekwon Do a The Cymreig, Cŵn Poeth, Hufen Ia a Dweud Ffortiwn, Arddangosfa gan yr Ysgolion, Crochenwaith a Saethyddiaeth, Dawnsio Gwerin a Mefus a Hufen. A chyda hyn oll fe fydd yna ddwsinau o stondinau a chwaraeon i ddifyrru pob aelod o'r teulu.**

Y neges i Gymry Caerdydd yw — dewch i Ŵyl y Castell, dewch â'ch teulu a'ch cyfeillion, ac anogwch eraill i ddod. Hwn fydd eich cyfle mawr chi i hysbysebu Eisteddfod Caerdydd. Fe fydd yn gyfle hefyd i chi i brynu tocynnau i'r Eisteddfod a'r Cyngherddau a'r Dramâu ym mis Awst. Mae'r mynediad yn 25c i oedolion a 10c i blant.

Ac os na wyddoch chi beth yw Taekwon Do — wel dewch i weld!

## Llety

A oes gennych chi lety i'w gynnig i ymwelwyr yn ystod wythnos yr Eisteddfod? Mae'r fflatiau yn yr hosteli wedi eu gosod bob un erbyn hyn, a chyda llythyron yn dal i gyrraedd yn holi am le mae aelodau'r Pwyllgor Llety a Chroeso yn awyddus iawn i gael enwau y rhai fydd yn barod i helpu. Awgrym y pwyllgor yw bod y rhai sy'n rhoi llety yn codi £3.50 am wely a brecwast, a phum punt am wely a brecwast a phryd gyda'r nos, ond gall pawb setlo ei bris ei hunan wrth gwrs.

Os medrwch chi helpu a wnewch chi ysgrifennu at Swyddfa'r Eisteddfod, 24 Windsor Place. Ac os nad oes lle yn eich tŷ chi, byddech yn gwneud cymwynas fawr pe baech yn rhoi'r manylion uchod i'ch ffrindiau a'ch cymdogion.

## Llywyddion,

Bydd pedwar Llywydd y Dydd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd sef:

Mr Gwilym Roberts, Caerdydd (Dydd Llun)

Y Gwir Anrhydeddus John Morris, P.C., Q.C., A.S. (Dydd Mercher)

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Edmund-Davies, P.C., LL.D. (Dydd Gwener)

Mr Emyr Currie-Jones, C.B.E., LL.B. (Dydd Sadwrn)

Mae Mr Gwilym Roberts yn athro yn Ysgol Gynradd Springwood yn Llanedeyrn (athro Cymraeg) ac mae'n enedigol o'r ddinas. Mae'n adnabyddus yng Nghaerdydd a thrwy Gymru am ei frwdfrydedd a'i ŷnni a'i lwyddiant gyda dysgu 'r iaith Gymraeg i blant ac oedolion. Bu'n arweinydd Aelwyd yr Urdd yn y ddinas am ddeuddeng mlynedd; mae'n drefnydd cyrsiau Cymraeg i oedolion, yn cynorthwyo i gynhyrchu *Yr Agoriad*, papur dysgwyr Cymraeg Caerdydd, ac roedd yn un o sefydlwyr y cwrs Wlpan cyntaf. Mae'n aelod o Bwyllgor Gwaith Mudiad yr Ysgolion Meithrin, ac yn olygydd y bwletin *Meithrin*; mae hefyd yn swyddog i fwy ag un cylch meithrin.

Brodor o Geredigion yw'r Gwir Anrhydeddus John Morris, sy'n Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gymreig er 1974. Mae'n aelod seneddol dros Etholaeth Aberafan er 1959.

Mae'r Arglwydd Edmund-Davies o Aberpennar yn aelod o Dŷ'r Arglwyddi er 1974, ac yn Arglwydd Apêl er 1974. Ef yw Dirprwy Ganghellor Prifysgol Cymru.


Mae Mr Emyr Currie-Jones yn llywydd y dydd ar ddydd Sadwrn yr Eisteddfod yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod. Mae ef yn enedigol o Gaernarfon. Bu'n amlwg mewn llywodraeth leol yn y ddinas, yn aelod o Gyngor Caerdydd o 1963–1973, ac o Gyngor De Morgannwg o 1973–1977. Ef oedd Cadeirydd cyntaf Cyngor De Morgannwg a Chadeirydd cyntaf y Pwyllgor Addysg.

## Arweinyddion

Cyhoeddwyd enwau arweinyddion y llwyfan yn

Cafodd Eisteddfod Caerdydd amcangyfrif y byddai'n costio 5 mil o bunnau i osod seddau'r Pafiliwn. Felly fe fyddai'n costio tua £1 y sedd! Er mwyn ceisio arbed y fath swm anferthol aeth nifer o wirfoddolwyr ati osod y seddau eu hunain. Bellach mae'r gwŷr gweithgar a welwch yma wedi gosod o leiaf 4 mil o seddau. Diolchwn iddynt am eu cyfraniad hael i'r Eisteddfod.





Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ym mis Awst, sef Mr R. Alun Evans, Mr Havard Gregory, y Parchedig Huw Jones (y Bala) a Mr Sulwyn Thomas.

Mr R. Alun Evans, Caerdydd, yw cyflwynydd rhaglen *Heddiw*, BBC Cymru, ac mae Mr Sulwyn Thomas, Caerfyrddin hefyd yn adnabyddus fel gohebydd ar raglenni'r BBC. Mae'r Parchedig Huw Jones yn Weinidog yn y Bala. Mae'r tri hyn wedi gweithredu fel arweinyddion y llwyfan yn yr Eisteddfod Genedlaethol o'r blaen.

Mae Mr Havard Gregory yn byw yn Nutfield, Surrey, ac yn swyddog Ewropeaidd i gwmni o fferyllwyr Americanaidd. Mae wedi bod yn arweinydd llwyfan yn rheolaidd ers blynyddoedd yn Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen, ond hwn fydd y tro cyntaf iddo arwain y Genedlaethol. Mae ganddo gysylltiad agos â Chaerdydd, gan iddo fyw yn y brifddinas am flynyddoedd.

## Tocynnau

Cyhoeddodd Mr Idris Evans, Trefnydd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, fod gwerth £32,500 o docynnau ar gyfer yr Eisteddfod wedi eu gwerthu eisoes, nifer eithriadol o uchel dri mis cyn yr Wyl.

O hyn ymlaen bydd cyfleustra ychwanegol i'r sawl sy'n awyddus i brynu tocynnau ar gyfer yr Eisteddfod a'r Cyngherddau a'r Dramau. Fe fydd Swyddfa'r Eisteddfod ar agor bob bore dydd Sadwrn o hyn tan yr Eisteddfod yn ogystal wrth gwrs ag yn ystod oriau swyddfa drwy'r wythnos.

Ym mysg y tocynnau sydd ar werth mae rhai ar gyfer Cyngerdd y Corau Meibion a'r Bandiau Pres nos Sadwrn, Awst 5ed, am £2 a £1.50, a thocynnau ar gyfer y Cyngerdd Operatig gyda Syr Geraint Evans a chantorion enwog eraill nos Sul Awst 6ed, am £4, £3 a £2.

## Siop Ail-law

Bu siop ail-law Eisteddfod Caerdydd yn un o brif strydoedd y ddinas yn llwyddiant eithriadol, gan wneud elw o £1,500 tuag at y Brifwyl. Trefnwyd y siop gan aelodau o Bwyllgor Cymuned Cyncoed, a'r bwriad gwreiddiol oedd agor am wythnos yn unig. Ond derbyniwyd digon o nwyddau i barhau ar agor am ail wythnos – ac roedd na lu o gwsmeriaid i brynu nwyddau yn amrywio o gelfi, torrwr glaswellt a setiau teledu i gylchgronau, teis a sanau! Ar ôl y fentr lwyddiannus hon, penderfynodd cefnogwyr yr Eisteddfod yn ardaloedd Sain Ffagan a Llandaf logi siop yn 88 Cowbridge Road East i werthu nwyddau ail-law a bron-yn-newydd. Trefnwyd i agor y siop hon ar Fehefin 5 am 10.00 o'r gloch ac i'w chadw ar agor am wythnos o leiaf. Un eitem mewn llaw ar gyfer y diwrnod agoriadol oedd set radio gynnar.

## Ffilm

Bydd un o gynhyrchiadau gyda'r nos Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn torri tir newydd. "Ffilm yn gysylltiedig â phrofiad theatrig" — dyna yw disgrifiad y cynhyrchwyr o'r "Llinyn Arian", y rhaglen arbennig dan ofal Gwyn Erfyl, Gareth Wynn Jones ac Euryn Ogwen sydd i'w chyflwyno yn Theatr y Sherman ar nos Lun a Nos Fawrth yr Eisteddfod.

Y bwriad yw cyflwyno ymdriniaeth wahanol i'r Llinyn Arian arferol. Yn hytrach na defnyddio perfformiadau llafar statig ar lwyfan, fe geisir cyfleu'r cyfan drwy gyfuno ffilm gyda phrofiad theatrig pan fydd y gynulleidfa'n rhan weithredol o'r stori.

"Rhyfeddod Gwanwyn" yw is-deitl y stori. Dywed Gwyn Erfyl mai'r llinyn arian yma yw pererindod sy'n cychwyn gyda'r geni gan ddilyn drwy'r hwiangerddi, yr ysgol, y capel a holl amrywiaeth toreithiog llawenydd, gwae, dirgelwch, ofn a thyfu. "Mae'n arwyddocaol," meddai, "fod peth o lenyddiaeth hyfrytaf ein cenedl ni wedi codi allan o brofiadau plentyn, o ddyddiau Teulu Bach Nant Oer i farddoniaeth Gwyn Thomas, profiad sy'n cael ei fynegi weithiau ar ffurf atgof, ac weithiau yn nhermau y plentyn ei hunan.

Mae'n gyd-ddigwyddiad i'r cynhyrchwyr ddewis thema llencyndod ar gyfer y cynhyrchiad oherwydd llencyndod hefyd yw thema cystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Caerdydd.

## Gwerin Gwlad

Llongyfarchiadau i Huw a Sian Thomas ar enedigaeth eu merch, chwaer i Guto a Daniel. Sian wrth gwrs sy'n cyflwyno'r Corn Hirlas yn seremoniau'r Orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, ac mae Huw, heblaw bod yn Gofrestrydd Academaidd yn Ysgol Rhydfelen, yn Ysgrifennydd Pwyllgor Cerdd yr Eisteddfod.

# *Dinesydd* yn y Steddfod

**Bu llawer o freuddwydio ar hyd y blynyddoedd am sefydlu papur dyddiol Cymraeg yng Nghymru. Hyd yn oed pan oedd y wasg Gymraeg yn ei hanterth yn y 19eg ganrif, fu 'na erioed bapur *dyddiol* Cymraeg, hyd y gwyddom. Ond yn awr, wele wireddu'r breuddwyd! Yn oes y teledu, adeg pan mae papurau newydd yn rhedeg i drafferth ariannol ar bob llaw, a Stryd y Fflyd ar fin cau lawr, bydd gan Gymru bapur newydd dyddiol Cymraeg am y tro cyntaf erioed eleni.**

Wel, am wythnos o leiaf. Oherwydd yn ystod wythnos y Steddfod, bydd *Y Dinesydd* yn troi'n *Ddinesydd Dyddiol* ac yn ymddangos *bob dydd* ar y maes. Felly, am y tro cyntaf erioed, fydd dim rhaid i neb droi at Lais y Sais neu Dail y Post am newyddion y 'Steddfod — bydd y cwbl ar gael yn Gymraeg yn y *Dinesydd Dyddiol*.

Wrth reswm, mae menter fel hon yn mynd i osod baich trwm iawn ar ysgwyddau'r criw bach o wirfoddolwyr sy'n cynhyrchu'r *Dinesydd* bob mis. Carem felly apelio at unrhyw un ohonoch chi'r darllenwyr a fyddai'n fodlon helpu mewn unrhyw ffordd gyda chynhyrchu'r *Dinesydd Dyddiol* — *casglu* a rhoi trefn ar newyddion, ysgrifennu erthyglau ac adolygiadau, teipio copi, tynnu a datblygu lluniau, hel hysbysebion a gwerthu'r papur ar y maes — i gysylltu â'r golygydd ar unwaith.

Hyd yn oed os na ellwch weithio mwy nag un diwrnod o'r wythnos, neu awr neu ddwy bob dydd, bydd unrhyw gyfraniad y gellwch chi ei wneud yn help i sicrhau llwyddiant y *Dinesydd Dyddiol*, y papur dyddiol Cymraeg cyntaf erioed.

# Record newydd

SEINDORF......
"Seindorf" (Gwerin Syn 2085)

*Seindorf* a *Dr Hywel Ffiaidd* **yw'm hoff grwpiau Cymraeg. Mae'r naill yn ffiaidd a'r llall ddim. Ydych chi'n gallu dyfalu p'un yw p'un?**

**Mae Seindorf hefyd wedi recordio — a'r canlyniad yw 'Olwen Dwy Olwyn' ac 'Aelwyd Roc a Rol' ar ffurf plastig crwn. Dyma'r ddwy gan fwyaf poblogaidd, ond nid eu gorau. Ceir deunydd llawer mwy gwreiddiol a diddorol ganddynt yn eu cyngherddau, yn fy marn i.**

Mae'r cerddorion, Roger Williams, Elvin Evans, Meic Wilson a Phil Tomos yn haeddu mwy o sylw, ond nid ydynt wedi darganfod eu llawn botensial. Pam? Wel, yn syml (fel y crybwyllais wrth Elvin y llynedd yn Steddfod y Barri) mae angen gitarydd arall arnynt, neu chwaraewr syntheseinydd.

Wel, wedi dweud hyn, nid yw cynhyrchiad y record cystal â chynhyrchiad record y Trwynau Coch; efallai fod absenoldeb Alun ap Brinli adeg y recordiad yn esbonio'r diffyg.

Y rheswm pam nad yw Seindorf mor llwyddianus ag yr haeddant fod yw diffyg delwedd unigryw. Mae ffactor y ddelwedd gan Crysbas, ac am hynny maent yn fwy poblogaidd er nad ydynt cystal grŵp â Seindorf.

BALTIMORE JAMES

## ATHRO'N TEITHIO

Mae athro peripatetic enwocaf Cymru, sef John Albert Evans, yn teithio'r byd unwaith eto y mis hwn. Ar ôl llwyddiant ei gwrs Cymraeg yn yr Unol Daleithiau y llynedd, mae John yn dychwelyd yno am bythefnos arall i roi cwrs carlam ym Mhensylvania i nifer o Americanwyr brwd sydd am ddysgu Cymraeg. Fe fydd ganddo gwmni a chymorth yn y fenter hon gan fod Cennard Davies yntau'n mynd i daenu'r efengyl yr ochr draw i Fôr Iwerydd. Bob hwyl i'r ddau.

O.N. Gair o rybudd John. Mae hi'n drosedd ffederal i geisio smyglo goncs Mister Urdd i mewn i America.



**Mordaith gyda Caleb a Dan Dŵr**

Siân ac Iolo, dau blentyn o gefndiroedd cwbl wahanol — Siân o fro ddiwydiannol Cwm Tawe, ac Iolo o ardal wledig Llansilin. Ond daw'r ddau at ei gilydd er mwyn cychwyn ar fordaith addysgiadol i'r Môr Canoldir. Tybed beth fydd ymateb y ddau deithiwr sydd erioed wedi bod ar daith i wlad dramor o'r blaen?

Ymunwch â Siân a Iolo, Caleb a Dan Dŵr, bob p'nawn dydd Mawrth (gan gychwyn dydd Mawrth, 6 Mehefin) am 4.20.

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd

# Y Siop Ail-law

**Sôn am wythnos i'w chofio! Fel y digwyddodd fe aeth yn bythefnos i'w chofio heb sôn am y paratoi a fu ymlaen llaw! Am y siop y soniaf. Pwy yng Nghaerdydd na chlywodd am fenter merched Cyncoed yn agor siop ail law yn y Ddinas i chwyddo coffrau Cronfa Steddfod Caerdydd?**

Tyfodd y fenter, a balch oedd cyfeillion Cyncoed i dderbyn cymorth parod llu o garedigion yr achos o rannau eraill Caerdydd. Choelia i fyth nad yw cartrefi Cymry Caerdydd dipyn gwacach a thaclusach ar ôl y fenter yma. Fu erioed y fath sgrealu a chael gwared o stwff aruthrol, yn ddillad, llyfrau, dodrefn a mân betheuach a ddenodd brynwyr yn llu i'r siop yn High Street.

Cymaint oedd y brwdfrydedd fel nad oedd hi'n bosib i'r criw bach prysur sôn am ddim arall drwy gydol y pythefnos. Dyna fu ein testun sgwrs — pawb â'i stori am helyntion a throeon trwstan yr hel a'r gwerthu.

Yn ogystal â chodi arian fe gyflawnwyd cryn orchest yn hysbysebu'r Steddfod. Clywsom y geiriau "It's for Oxfam is it luv?" sawl tro ac yn dilyn y cwestiwn aed ati i esbonio mai tuag at y Steddfod yr oedd y siop. Rhaid oedd egluro 'mhellach yn amal a rhoi cyfarwyddyd mai ym Mhentwyn y'i cynhelid.

Nid pawb oedd â phrofiad na'r ddawn i werthu. Yn wir, rhaid cyfaddef i nifer ohonom wneud cymwynas â'r Steddfod a'r iaith nid yn gymaint yn ariannol ond trwy synnu'r prynwyr bod ein prisiau mor afresymol o isel! Simsan iawn oedd syms un o'r criw — cyfaddefodd iddi werthu pâr o sgidiau am 50c a rhoi 50c o newid i'r cwsmer *heb* gymryd y bunt yn y lle cynta! Nid ym mhob man y cewch chi siopwr yn talu i'r cwsmer am fynd a nwyddau oddiar ei ddwylaw! Fel pe'n ceisio gwneud iawn am y camwedd fe ddadleuodd hon yn frwd â chwsmer arall nad oedd wedi talu digon a galw cymorth un o'i chydweithwyr a'i darbwyllodd bod y cwsmer yn llygaid ei le-a bod 25c yn ddyledus iddo!

Rhyfedd fel y tyfodd y gred ynglŷn â phob achos da mai, at 'i gilydd, swyddogaeth y merched ydy codi pres. Calonogol iawn felly ar y bore cynta (a thyrfa yn aros i'r drysau agor) oedd cael ambell i ŵr yn mentro i fod yn gefn i ni. Dylai gŵr camera'r *Dinesydd* fod wedi bod yn llygad dyst o Watcyn Jones yn gwerthu blowsus yn llwyddiannus iawn a'i sylwebaeth ar addasrwydd y pilyn yn llwyddo bob tro i berswadio'r cwsmer mai rhaid oedd prynu! Deheuig a llwyddiannus iawn oedd perswad Gunston Jones yn gwerthu llyfrau inni hefyd.

Diolch i Emyr Currie-Jones am gefnogi'r fenter. Ymwelai â ni droeon y dydd a chyn amled a pheidio cariai lwyth o stwff inni o rywle. Braf hefyd oedd cael cynigion am fwy o stwff gan rai o'r cwsmeriaid ac fe dderbyniwyd cyflenwad oedd y tu hwnt i'n gobeithion.

Noson cyn i'r siop agor tra'n cerdded High Street ac yn sbecian yn y ffenest gan geisio dychmygu'r ymateb a fyddai oddiwrth y cyhoedd, fe welodd un o'r criw gath go iawn yn y ffenest. Dyma ffonio Avril Lewis, arweinydd y criw prysur, gan ofni pa effaith a gai cath wedi'i chloi mewn ar ein stoc gwerthfawr. Bu chwilio dyfal amdani ond ni welwyd cip ohoni wedyn. Ond tystiodd sawl un o'r criw, wrth ddadbacio ambell i focsiad o ddillad, nad rhith o gath ydoedd. Er yn anweledig fe beraroglodd ambell gornel gan brofi ei bod yno yn rhywle!

Am wythnos y bwriadwyd agor ond wir roedd blas ar yr ymdrech a'r peth yn gafael arnom. Erbyn diwedd yr ail wythnos fe chwyddodd y pwrs i £1,500 a phawb o'r un farn ei bod wedi bod yn fenter gwerth chweil.

Peth peryglus ydy enwi ac amhosibl nodi pawb fu a rhan yn y gwaith. Teg mi gredaf, yw imi enwi Avril Lewis a'n llywiodd yn fedrus a brwd drwy bob dydd, i Nia Hall Williams un o'r capteiniaid ac i Lydia Jones a wnaeth y gwaith manwl o logi'r siop a threfnu yswiriant. Gwerthfawrogwn garedigrwydd Mair Barnes yn rhoi benthyg offer hongian dillad inni. Diolch o galon iddynt hwy ac i bob un arall, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg a dorchodd lawes i godi swm mor anrhydeddus. Dyna fu ein gwobr, bod y syniad wedi llwyddo, ac yn fwy parhaol a gwerthfawr mae'n debyg, fe ddaeth y llu o bobol i gysylltiad â'i gilydd a phlannu hedyn cyfeillgarwch fydd yn goroesi ymweliad y Steddfod â Chaerdydd.

SHÂN EMLYN

# A OES HEDDWCH?

"Ddim o gwbwl," meddai merched Gwaelod y Garth. Chi'n gweld, mae'r dynion wedi ffurfio gorsedd — sef Gorsedd Beirdd Mynydd y Garth a'u dymuniad yw cael cymryd rhan yn seremoniau gorseddawl Yr Eisteddfod Genedlaethol. Ond mae yna broblem. Chaiff yr un ferch ymuno â'u rhengoedd! A dyna paham nad oes yna heddwch yno! Mae'r merched ar bigau'r drain eisiau bod yn un ohonyn nhw, a fedran nhw ddim gweld paham na chân nhw fod o gofio fod merched yn gwisgo'r wisg wen yn y Orsedd go iawn. A phan mai merched ar bigau'r drain, wyddoch chi ddim pa mor bell y gallan nhw fynd!

Fe aeth un ohonyn nhw mor bell â threfnu cyfarfod ffug yn Athrofa Addysg Uwch De Morgannwg a gwahodd y dynion yno, gan eu cyfeirio i dŷ bach y merched. Ac fe aeth y dynion yno — yn gwbl o ddifrif, wrth gwrs.

"Hen dro sâl," medden nhw pan welson nhw fod y merched wedi eu twyllo, a dyw hi ddim yn debyg yn awr y caiff y merched groeso i'w rhengoedd am sbel.

"A oes heddwch?" Dim ffiars o berygl!

# Ac Ambell i Lesn Fach

Mae gwersi Wlpan yn hen beth erbyn hyn, ond mae Rosalind Williams wedi symud i fyd hynod ddiddorol sef Wlpan aelwyd. A hynny'n gwbl ddiarwybod iddi.

Yn ôl Rosalind, fe ddechreuodd y cyfan yn ddigon diniwed mewn grŵp chwarae — ac yna hi'n derbyn gwahoddiad i roi gwersi yn y cartre i dad a mam un o'r plant. Yna, fe ddaeth pedwar arall atyn nhw a dyna nhw'n chwech. Unwaith yr wythnos y maen nhw'n cwrdd ac mae'r grŵp yn medru deall digon o Gymraeg yn awr i fedru gwrando ar siaradwyr gwadd. Mae hyn yn dwyn i gof y frawddeg ddiddorol a glywir mor aml, "Rwy i gystal Cymro â neb, ond..." O Lerpwl Swydd Lincoln a Dyfnaint y daw'r teuluoedd hyn, ond mae'r plant yn awr yn mynychu Bryn-taf, ac yn eu tro yn medru atgyfnerthu'r Wlpan yn y cartref.

## TRI CHYNNIG...

Tri chynnig i Gymro, meddai'r hen air, ac mae Marcus a Llio Brown newydd estyn croeso i'w trydydd plentyn, Alun, i'w haelwyd — sef brawd bach newydd sbon i Gareth ac Iwan. Yng Nghricieth y mae gwreiddiau Llio ac mae Marcus yn arbenigwr meddygol yn y Royal Gwent.

## APÊL

Arlunydd o Ddenmarc yw'r cyntaf i ymateb i apel am ddarluniau i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Mae Knud Larson yn byw yn Nenmarc ac yn gyfaill i Mr John Albert Evans, sy'n aelod o Bwyllgor Apeliadau'r Eisteddfod.


**NOS WENER YR EISTEDDFOD**
**TOP RANK CAERDYDD**
**- AWST 11**

8.00p.m.–2.00a.m. (Bar Hwyr)
EDWARD H. DAFIS
DAFYDD IWAN
RICHARD (SOSBAN) REES – DISCO

TOCYNNAU £1.50 (£1.25 am archebion o 10 neu fwy)

PEIDIWCH OEDI!

Cysylltwch â: Paul Morgan, Plaid Cymru, Gogledd Caerdydd, 50 Springwood, Llanedeyrn, CAERDYDD — Ffôn 750211.

# PRIF DDINAS Y DYFODOL?

Yn y cyfraniad olaf hwn ar hanes Caerdydd troir ambell ddalen yn Nhrafodion Eisteddfod Genedlaethol y dref (a gyflwynwyd, gyda llaw, i'r frenhines Fictoria) a gynhaliwyd yn 1883, ac i gloi trafod rhai agweddau ar y ddinas gyfoes. Cynhaliwyd yr Eisteddfod (ar gost o tua £6,000) mewn man braidd yn annisgwyl, sef sied anferth a adeiladwyd gan Gwmni Rheilffordd y Taff Vale yn Cathays yn agos y fan lle saif adeilad Newydd y Dynoliaethau heddiw. Yn y Trafodion, ag eithrio'r beirniadaethau, Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir. Beirniaid yr awdl ar y testun 'Y llong' oedd Dyfed, Cynfaen a Thafolog ac ataliwyd y wobr. Ymhlith yr areithwyr yr oedd ardalydd Bute a'r Arglwydd Aberdâr a draddododd eu hareithiau yr Saesneg. Ymhlith y cystadlaethau llenyddol gofynwyd am gerdd farwnad i'r diweddar Barch Ollivant, Esgob Llandaf (yn Saesneg) a thraethawd ar hanes llenyddiaeth Gymraeg o 1300 hyd at 1650 (neb yn deilwng). Elis Wyn o Wyrfai a Cheiriog oedd beirniaid y fugeilgerdd a Chlwydfardd a gloriannai'r wyth emyn addas ar gyfer yr ysgolion Sul. Yn yr adran gerdd gofynnwyd am 'libretto' ar gyfer pantomeim 'Sinbad y Morwr', a pherfformiwyd y gwaith buddugol yn llwyddiannus yn y Theatr Royal y Nadolig wedi'r Eisteddfod. Ymhlith y beirniaid eraill cafwyd y Parch. J.R. Kilsby Jones, Nathan Dyfed, Syr John Rhys, y Parch. John Evans Eglwysbach (llenyddiaeth) a'r athro Syr G.A. Macfarren o Brifysgol Caergarawnt a D. Emlyn Evans (cerddoriaeth). Gwnaed trefniadau hwylus ar gyfer cludo Cymry'r gogledd i'r wyl — 8 swllt ar y tren o Gaernarfon a 7 swllt o Fangor, yn ôl a blaen! Y mae'r trafodion ynddynt eu hunain yn adlewyrchu'rn eglur iawn ddull y cyfnod o drin a thrafod Cymru a'r Gymraeg a'i diwylliant, a diddorol yw nodi barn graff 'Tarian y Gweithwyr' ar yr Eisteddfod honno: 'Nis gall neb fod yn anwybodus o'r ffaith fod Eisteddfod Caerdydd... wedi bod yn fwy fel rhyw gynulliad arddangosiadol Seisnig nag yn un Gymreig... a gwelir mai Saeson heb ddeall dim Cymraeg oedd rhan fwyaf y Prif Swyddogion... nid oedd yno yr un Cymro 'dysgedig wedi cael ei osod yn llywydd un o'r cyfarfodydd'. Calondid yw gwybod fod pethau wedi newid gryn lawer erbyn ein dyddiau ni.

* * *

Hyd at y rhyfel byd cyntaf yr oedd dinas Caerdydd wedi dibynnu bron yn gyfangwbl ar y diwydiannau glo, haearn a dur a chan fod y rhan fwyaf o'r cyfalaf wedi ei fuddsoddi yn y diwydiannau trwm hynny (a gyflogai'r rhan fwyaf o weithwyr) ychydig iawn o gyfle a gafodd diwydiannau ysgafnach i ddatblygu'n annibynnol. Wedi Rhyfel 1914-18 bu i'r dirwasgiad mewn masnach ynghyd â chystadleuaeth frwd rhwng glo ac olew effeithio'n drychinebus ar ddyfodol y diwydiant glo. O fewn ychydig flynyddoedd i'r rhyfel hwnnw dechreuodd nifer yr allforion glo o Gymru leihau, a chan fod gwŷr busnes Caerdydd wedi buddsoddi'n helaeth yn y diwydiannau adeiladu ac atgyweirio llongau a gweithfeydd eraill oedd yn gysylltiedig â hwy, cafodd y dirwasgiad effeithiau drwg iawn ar y dociau. Erbyn 1936, er enghraifft, yr oedd doc Penarth wedi'i gau. Defnyddiwyd olew yn gynyddol ymhob cangen o ddiwydiant, yn cynnwys y gwasanaeth trydan a'r llyngesau brenhinol a masnach. Amharwyd yn ddifrifol hefyd ar ffyniant Caerdydd yn ystod dirwasgiad y dau-ddegau oherwydd y cystadlu mawr a ddeuai yn sgil glo tramor, yn arbennig o'r Almaen. Yn wir, fel y dywed yr Athro William Rees, yr oedd Caerdydd yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd wedi'i chaethiwo gan ei llwyddiant ei hun. Ffynhonnell gwendid yn y pen draw oedd ei phrif gryfder hanner can mlynedd ynghynt. Oherwydd y gor-arbennigo yn y gorffennol ac er mwyn ceisio arbed diweithdra ar raddfa fawr, gweithredwyd polisi o ail-hyfforddi yn ystod y blynyddoedd cyn yr ail Ryfel Byd. Un enghraifft nodedig o hyn oedd creu ystad Fasnach Trefforest gyda'i hamrywiaeth o ddiwydiannau ysgafn. Erbyn 1939 cyflogwyd tua 2,500 o weithwyr yno mewn ugain o ffatrioedd.

Yng Nghaerdydd ei hun gwnaed nifer o ymdrechion dros yr ugain mlynedd cyn hynny i ail-lunio ac addasu'r diwydiannau a oedd ynddi eisoes i amodau economaidd newydd a mwy addas. Dibynnwyd fwyfwy ar gynllun llawer ehangach o ffurfio cytundebau masnach a bu hynny'n foddion i leihau'r angen am ddociau mawr. Hefyd, parhawyd i fewnforio haearn crai, ac o gwmpas y gweithgarwch hwnnw y datblygodd y porthladd o hynny ymlaen.

Cynyddu, fodd bynnag, a wnai ffiniau'r ddinas, a chynhwyswyd mwy o faestrefi o'i mewn. Yn 1922 ymgorfforwyd Llandaf a rhannau o Lysfaen a Llanishen. Yn 1937, plwyf Tredelerch; yn 1950, rhannau o Laneirwg ac yn 1967, yr Eglwysnewydd, Rhiwbeina a rhannau ffiniol Cyncoed. Yn ugeiniau a thridegau'r ganrif mewnfudodd nifer mawr o deuluoedd proffesiynol Cymraeg o bob rhan o Gymru yn bennaf i ardaloedd yr Eglwysnewydd, Rhiwbeina a Llanishen, fel y dengys llawer iawn o enwau heolydd yn y maestrefi hynny.

Erbyn heddiw, y mae problemau economaidd eraill wedi goresgyn y ddinas, yn eu plith cau gwaith dur East Moors. At hynny, y mae gofynion cynyddol y gymdeithas fodern gosmopolitan a'r angen i ehangu trwy godi adeiladau newydd yng Nghaerdydd yn peri pryder i lawer sy'n ymddiddori yn ei hanes.

Mae amryw yn gofyn, erbyn hyn, os yw prifddinas Cymru, o gofio'i Seisnigrwydd, yn deilwng i gael ei chydnabod yn gyrchfan Gymreig a Chymraeg. Yn wyneb yr addrefnu mewn llywodraeth leol yn ddiweddar a yw Caerdydd, meddai eraill, wedi colli ei safle fel prif dref ranbarthol Morgannwg? Er mwyn iddi allu tyfu'n brifddinas Gymreig y mae'n rhaid iddi, yn wahanol i Lundain yn ei pherthynas â Lloegr, ddod yn fwy ymwybodol o'i Chymreictod. Fel Llundain y mae'r dref yn hen ond, yn wahanol i Lundain, y mae Caerdydd yn brifddinas newydd. O safbwnt datblygu, yn hytrach nag ymfalchio yn y traddodiad sy'n ymestyn yn ôl lawer canrif, y mae'r awdurdodau'n fwy penderfynol nag erioed mai cynnydd, newydd-deb a ffyniant a ddylai gael y lle blaenaf. Y mae'r agwedd hon i dwf y ddinas wedi peri mwy o loes i frodorion Caerdydd ond odid nag unrhyw fater arall yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Y mae crybwyll 'Herbert House' yn eu cynhyrfu'n fawr ac y mae hynny i'w ddisgwyl ymhlith pobl sy'n ymhyfrydu yn nhraddodiadau eu tref enedigol. Y mae'n gred a dderbynnir bellach, fod dŷn yn adeiladu ar ei orffennol, ond erys y broblem sylfaenol heb ei datrys — a ddylai sicrhau ei ffyniant ei hun a ffyniant ei gymdeithas ar draul olion olaf ei dreftadaeth?

I'r Cymry sy'n trigo yn y ddinas — ac y mae mwyafrif ohonynt yn bobl ddwad — eu gorchwyl hwy yw helpu i gryfhau'r ymwybyddiaeth o Gymreictod. Gwnaed hynny dros y blynyddoedd mewn capel ac eglwys, cymdeithas, ysgol, coleg a chanolfan, ac eleni daw'r Eisteddfod Genedlaethol, mi hyderwn, i hybu'r gwaith. Mae'r Eisteddfod yn bwysig, nid oes neb a wâd, ond wedi i bawb fynd adref fe erys Cymry Cymreg Caerdydd a'r garfan gref — a diolch amdanynt — o ddysgwyr. Arnynt hwy (neu'n hytrach, arnom ni) y disgyn y baich o sicrhau fod dylanwad ein Gŵyl Genedlaethol yn parhau ac yn cryfhau'r Gymraeg yn y dref hynafol hon a ddaeth dan ddylanwad y Rhufeiniwr, y Norman, y Sais a'r Cymro yn eu tro.

J. GWYNFOR JONES

## Camp Fawr Caerdydd

Llongyfarchiadau i bobl ifanc y cylch hwn ar gipio tair o'r pedair prif wobr yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd. Enillodd Gwyneth Lewis y Fedal Lenyddiaeth am yr ail waith yn olynol ar ôl ei llwyddiant yn Y Barri llynedd, ac enillodd Gareth Sion y Fedal Ddrama; y mae'r ddau yn ddisgyblion Ysgol Gyfun Rhydfelen. Cipiwyd y Goron gan Cathryn Gwynn, sy'n byw yng Nghaerfyrddin bellach ond sydd hithau'n un o gyn-ddisgyblion Rhydfelen; bu'n byw yn Rhiwbeina tan i'r teulu symud i Gaerfyrddin rai blynyddoedd yn ôl. Llongyfarchiadau gwresog iawn i chi, Gwyneth, Gareth a Cathryn.

## Urdd i Grist

Cyhoeddir fod cylchgrawn newydd sbon i bobl ifanc ar gael ei gyhoeddi gan yr Urdd. Bydd y cylchgrawn — *Gwreichion* — yn ymddangos ddwywaith y flwyddyn ac er y bydd yn cynnwys erthyglau ar ffasiwn, chwaraeon, a phobl enwog, bydd *Gwreichion* yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag ail a thrydydd cymal addewid yr Urdd, sef gwasanaeth i Grist ac i Gyddyn.

# Gymanfa Anarferol

**Bum i mewn llawer cymanfa ganu yn ystod oes sydd bellach wedi pasio oed yr addewid, ond y gymanfa ryfeddaf a fûm i yn gyfrannog ynddi erioed oedd honno, fis Tachwedd ddiwetha ymysg pobl brown eu croen, noeth eu coesau a'u traed, gwyn eu dannedd a siriol eu gwên, ar ynys fechan, fechan, ynghanol eangderau'r Môr Tawel.**

Os edrychwch chi ar fap o'r Môr Tawel, chwi welwch, o syllu'n fanwl, ychydig o ronynnau bychain, bychain mewn grŵp o bobtu'r Cyhydedd, (yr Equator). A gwelwch hefyd yr enw *Gilbert Islands* rywle yn agos. Y llynedd, treuliais tua thri mis yn byw ar un o'r smotiau bychain hyn, sef ar *Tarawa.* Nid ynys mohoni ond atol cwrel, sef cadwyn o ynysoedd hirgul bychain yn cylchynnu lagŵn o ddŵr bas, a phob ynys â miloedd o balmwydd coco tal, a'u ffrondiau gwyrdd yn chwarae yn yr awel. Ac ar un o'r is-ynysoedd hirgul yma, sef ynys *Bikenibau*, y bûm i yn byw. Rhimyn cul o dir, ychydig filltiroedd o hyd, a llai na chwarter milltir o led, rhwng y lagŵn a'r cefnfor dyma yw Bikenibeu.

Ond sôn yr oeddwn i am y gymanfa ganu honno. Bu cenhadon o amryw sectau Cristnogol yn weithgar ar yr ynysoedd yn ystod y ganrif ddiwetha' ac erbyn heddiw mae gan ryw bump neu chwech o sectau eu cynulleidfaoedd a'u heglwysi ar Tarawa. Cymanfa gan yr Anghydffurfwyr y bûm i ynddi. Yr achlysur oedd dathlu jiwbili sefydlu'r eglwys leol, — Eglwys y Gilberts — fel eglwys oedd yn annibynnol ar awdurdod oddiallan.

Cynhelid y gymanfa mewn *maneaba*, hynny yw, mewn adeilad cyhoeddus â tho eang o ddail pandanws wedi'u plethu, a'i frig yn uchel ac yn disgyn i fondo isel. Pyst o fonion palmwydd oedd yn cynnal y to. Roedd yr ochrau yn hollol agored. Pridd caled oedd llawr ambell i *faneaba*, ond llawr concrit oedd i hwn a'r concrit wedi ei orchuddio â matiau o ddail a gwellt plethedig. Nid oedd sedd na chadair yn unman, ond un cadair ar lwyfan lle'r eisteddai lywydd y gweithrediadau. Swatio ar lawr, â'u coesau ymhleth, a wnai pawb arall, a minnau yn ceisio gwneud yr un modd, er yn ddigon trwsgl ac anghysurus.

Tua dau o'r gloch y prynhawn oedd hi pan gyrhaeddais i, a roedden' nhw wedi bod wrthi ers deg o'r gloch y bore. 'Doedd y dorf ddim yn canu fel un côr o dan arweinydd gwadd, ond 'roedd pob cynulleidfa leol yn ei thro ('roedd ryw chwech ohonyn' nhw) yn canu o dan ei harweinydd hi ei hun, a hynny gallwn dybio, ar dir cystadleuol. 'Roedd y gweithrediadau i gyd yn yr iaith frodorol, ond 'roedd cyfaill o frodor yn esbonio ambell beth imi. Ar ôl cyfraniad pob côr, byddai un neu ddau unigolyn o'r corau eraill yn codi ac yn gwneud sylwadau chwareus-ddifriol ar ganu'r côr oedd newydd orffen, a chrechwen uchel yn dilyn pan fyddai'r sylw crafog hefyd yn ffraeth neu yn ysmala.

Canu yn ddigyfeiliant a wnai pob côr, mewn cynghanedd pedwar-llais, gan gymryd sŵn oddiwrth yr arweinydd, a hwnnw weithiau yn rhoi traw rhy uchel a'r sopranos yn gorfod sgrechian tipyn ar y nodau uchaf. Ond, at ei gilydd, roedd y canu yn hyfryd a soniarus, a lleisiau'r dynion yn arbennig o gyfoethog. Rhyfeddais at eu gallu i ganu rhythmau a chynganeddion cymhleth. 'Roedd hi'n amlwg fod y corau hyn *yn* mynychu'r ysgol gân yn ffyddlon.

Peth hynod a ddigwyddai pan fyddai côr yn "cael hwyl arni", a'r canu yn codi i gleimacs o deimlad ac angerdd. Fe fyddai ail arweinydd yn codi o blith y côr, merch fel rheol, fel pe mewn pêr lesmair, a'i breichiau a'i chorff yn symud i fynegi dwyster teimlad neu ecstasi gorfoledd, gan gymell y cantorion i roi eu henaid hyd yr eithaf yn y canu.

'Roedd y rhan fwyaf o'r tonau yn ddieithr i mi; cefais ar ddeall fod amryw ohonynt wedi'u cyfansoddi gan gerddorion brodorol. Ond toc, dyna nodau cyfarwydd yn taro ar fy nghlyw! "Deemster" gan Wiliam Owen, Prysgol, ar eiriau dieithr, a minnau yn methu ag ymatal rhag canu'r bas ar y geiriau Cymraeg.

"Mae sôn amdanat Ti
'mhob man
Yn codi'r gwan i fyny."

Os yw "Deemster" wedi ei hesgymuno o'r llyfrau-emynau diweddaraf, mae hi'n cael lle anrhydeddus o dan balmwydd ynysoedd y Môr Tawel.

A chyn y diwedd dyma "Calon Lân" yn codi yng ngwres y prynhawn, ond "Calon Lân" mewn gwisg ddieithr. Ond hyfryd oedd ei chydnabod fel Cymraes hyd yn oed ar ei newydd wedd, ac o dan amgylchiadau mor rhyfedd.

Yn ystod rhyw egwyl yn y canu, dyma ŵr ifanc golygus yn sefyll ac yn cyhoeddi canlyniadau pêldroed a phêlrwyd rhwng timau o'r gwahanol eglwysi. Mae'n debyg fod y chwareuon hefyd yn rhan o'r gymanfa gystadleuol.

A chyda hyn, teimlais rywun o'r tu ôl imi yn procio i dynnu fy sylw. Y llywydd oedd yno, wedi sylwi ar fy wyneb pinc ymhlith y gynulleidfa ac yn estyn llaw frown mewn croeso, ac yn fy nghyfarch mewn Saesneg perffaith "Welcome! We hope you are enjoying our festival. Where do you come from?" Minnau yn ateb "From Wales", ac yntau yn ychwanegu "O! from Australia." Brysiais i esbonio fod "South Wales" ar gael yng Nghymru cyn bod neb o Ewrop wedi meddwl am alw New South Wales ar ran o Awstralia.

Yr unig ddyn gwyn arall yn y dorf liwgar honno oedd Tom Hawthorne, cenhadwr a fu'n gweithio ar yr ynysoedd pellennig hyn am flynyddoedd lawer, ac sydd yn awr yn darlithio mewn coleg diwinyddol bychan ar Tarawa. Cefais aml i sgwrs diddorol â Tom, a chofiaf iddo ofyn imi unwaith. "Does the name Pennar Davies mean anything to you in Wales, nowadays? He was a fellow-student of mine many years ago in Birmingham."

Ac wrth ysgwyd llaw ag ef am y tro olaf cyn ymadael â'r ynys, lle mae hi yn llythrennol yn "haf o hyd" meddai Tom wrthyf,

"If you should meet Pennar Davies at any time, give him my kindest regards and rememberances." Ac addewais innau.

GWYN DAVIES.

---

# Pais i Ferched

**Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei fod i gynnig cefnogaeth ariannol i gylchgrawn Cymraeg newydd o'r enw 'Pais'. Cylchgrawn misol i ferched yw 'Pais' a disgwylir i'r rhifyn cyntaf ohono ymddangos ym mis Awst eleni. Y Golygyddion yw Eleri Llewelyn Morris ac Annes Glynn. Rhoddir cymhorthdal o £4,500 gan y Cyngor am wyth rhifyn sydd i ymddangos rhwng Awst 1978 a Mawrth 1979. Adolygir y cymhorthdal cyn y flwyddyn ariannol 1979/80.**

Wrth gyhoeddi'r grant, dywedodd Mr Meic Stephens, Cyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, "Y mae'r Cyngor yn ystyried ei gymhorthdal i gylchgronau, yn Gymraeg a Saesneg, yn rhan ganolog o'i bolisi o gefnogi llenyddiaeth yng Nghymru. Ers peth amser bellach bu'n chilio am gyfle i gefnogi cylchgrawn o ddiddordeb cyffredinol, yn hytrach na'r cylchgronau llenyddol a'r adolygiadau o faterion cyfoes sydd wedi derbyn cymorth yn y gorffennol. Mae golygyddion 'Pais' yn hyderus y gallant gyrraedd cylchrediad o 3,000-5,000 o gopïau o bob rhifyn. Mae'r Cyngor yn barod i'w cefnogi yn eu hymdrech a bydd yn edrych gyda diddordeb ar ymateb y Cymry i'r fenter newydd hon. Ar yr un pryd, wrth gwrs, fe bery'r Cyngor i gefnogi yr un cylchgrawn ar ddeg arall sy'n dibynnu ar ei gefnogaeth."

Yn ogystal â'i grant i 'Pais' fe fydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gwario cyfanswm o £59,320 yn ystod 1978/9 ar yr un cylchgrawn ar ddeg canlynol: 'The Anglo-Welsh Review', 'Barddas', 'Barn', 'Y Casglwr', 'Y Faner', 'Y Genhinen', 'Planet', 'Poetry Wales', 'The Powys Review', 'Taliesin', a'r 'Traethodydd'.

*Ceir rhagor o fanylion am 'Pais' oddi wrth y golygyddion: Eleri Llewelyn Morris (Llanbedrog (075 884) 401) ac Annes Glynn (Caernarfon (0286) 2416).*

# *Shakin Jenkins* O Gaerdydd

**Ar y seithfed o Orffennaf bydd SHAKIN JENKINS a'i ARIAN BYW yn gwneu d eu hymddangosiad cyntaf yn yr un ddawns â BRÂN, yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy. Mae'r *Dinesydd*, dan gost enfawr, wedi llwyddo i gael cyfweliad ag arweinydd yr ARIAN BYW, sef Gareth Huws. Gofynnwyd iddo'n gyntaf sut ffurfiwyd y grŵp.**

"Wel, mae'r grwp wedi bodoli ers tua 4 mlynedd o dan nifer o wahanol enwau, ond y broblem sylfaenol fu darganfod lleisydd cymwys. Yna, tua mis yn ôl, clywais y dyn yma'n canu o flaen torf enfawr, a phenderfynais ofyn iddo ymuno â'r ARIAN BYW fel prif leisydd." Ef enw oedd Shakin Jenkins, a dyna lle mae hanes yr ARIAN BYW yn cychwyn! "Diddorol iawn," meddai'r Dinesydd. "A pha fath o gerddoriaeth mae'r grwp yn ei chwarae?

"Roc trwm ar y dechrau, ond roedd rhaid addasu'r arddull i batrwm canu Shakin, a'r canlyniad yw roc a rol Cymraeg." Aelodau eraill y grwp yw Gari Prysor, Dafydd Saer, Owen Lewis a Rhys Powys. Ond beth am y dyn ei hun, Shakin Jenkins?

"Hei, rwy'n dod o Riwbeina, hynny yw, Mecca roc a rol Caerdydd. Fy nylanwadau pennaf yw Jerry Lee Lewis, Fats Domino ac wrth gwrs, Elfis. A chofier, *rock and roll lives*!"

Nid oedd Ian Fraser, rheolwr y band, yn fodlon iddynt ddatgelu rhagor am eu hunain, ond os am brofi cerddoriaeth fesferaidd Shakin Jenkins a'i Arian Byw dewch i'r Ganolfan ar Orffennaf y 7 fed!

BALTIMORE JAMES

# Ymgyrch Rhieni

LLONGYFARCHIADAI i rieni Ysgol Gymraeg Ynyswen, Treorci ar eu safiad o blaid sefydlu ysgol Gymraeg arall yn y Rhondda. Y mae cymaint o rieni yn y Rhondda am i'w plant dderbyn addysg Gymraeg erbyn hyn nes bod ysgol Ynyswen llawer rhy fach i'w derbyn i gyd (y mae dwywaith cymaint o blant am fynd i'r ysgol eleni — 70 i'w gymharu a 35 llynedd).

Y gobaith oedd rhannu Ynyswen yn ddwy, gan symud hanner y plant i Ysgol Bodringallt ymhellach i lawr y cwm, a sefydlu ysgol Gymraeg newydd yno. Ond y mae'r pwyllgor Addysg yn awr yn ceisio symud yr holl blant i Fodringallt a chau Ynyswen, a hyn er gwaetha'r ffaith nad yw Bodringallt yn ddigon mawr i gynnwys yr holl blant (rhyw 270 i gyd). Fe fydd pedwar dosbarth cyfan 'dros ben' — a'r bwriad yw gwasgaru'r rheini yn unedau Cymraeg yn yr ysgolion Saesneg lleol. Nid dyma'r ffordd i ymateb i'r fath alw amlwg am addysg Gymraeg yn y Rhondda — ond dyma'n union y gellir ei ddisgwyl os caniateir i Gyngor Canol Morgannwg fwrw ymlaen â'i bolisi trychinebus o sefydlu "Unedau Cymraeg" yn hytrach nag ysgolion Cymraeg iawn. Ond hwyrach na chaiff y Cyngor ei ffordd yn hawdd iawn gyda rhieni Treorci. Y maent hwy'n gynddeiriog ynglŷn â'r cam arfaethedig ac yn bwriadu ei wrthwynebu â'u holl allu — mae son hyd yn oed am feddiannu ysgol Ynyswen os bydd rhaid. Pob nerth iddynt yn yr ymgyrch hon.

## Rhwyg arall

Mae'n debyg fod Mr Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol, wedi ffarwelio â'i griw o weithwyr ffyddlon yn Swyddfa'r Eisteddfod (Winsor Place) yn ddiweddar, a symud i mewn i unigrwydd swyddfa newydd grand yn St. Andrew's Place. Nid oes dim gwirionedd yn y si fod pobl bellach yn cyfeirio at Swyddfa'r Eisteddfod fel "Swyddfa'r National" a swyddfa'r Cyfaddrwyddwr fel "Swyddfa'r Roial".

# Gŵyl Werin Arall

**Rydw i'n credu i'r cyfryngau torfol golli siawns yn ddiweddar i gyplysu dau ddiwylliant — neu dwy wedd ar ein diwylliant mae'n debyg, pan fu farw Elinor Dwyryd a Vic Parker o fewn dyddiau i'w gilydd. Heddwch iddynt.**

Roedd y ddau hyn wedi ymroi gydol eu hoes i ganu gwerin — y delynores Gymraeg i gerdd dant, a Vic i dannau'i gitâr a'r traddodiad a berthyn yn arbennig i'w hil, sef *jazz*. Cafodd Vic, o leiaf, angladd traddodiadol: cael ei gynhebrwng gan seindorf *jazz*, a llu o gyfeillion a ffyddloniaid, heibio'i hen chwaraefa yn y *Quebec*, ac i lawr y strydoedd gerllaw, fel pebai'r 'Saint am orymdeithio' i fewn i'r nef ar hyd strydoedd Tre-Bute yn lle Orleans Newydd.

Daeth hyn i'r cof wrth imi fynychu ambell sesiwn o Ŵyl *Jazz* Cymru yng nghanolfan *Chapter* yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Roedd y lle dan ei sang bob nos, a llawer o Gymry Cymraeg yno, llawer ohonyn nhw'n bobl ifainc, a phlant ysgol. Yr oedd yr awyrgylch mor gartrefol anffurfiol, ac eto'n ddwys ddefosiynol, fel ar faes yr Eisteddfod, neu gyda'r nos yn ystod yr ŵyl honno. Cyffelyb, hefyd, oedd y dull o borthi'r datgeiniaid, ac yn atgoffa dyn am bethau mor arwynebol anghymarus â Seiat a *Fleadh Ceoil* (gŵyl cerddoriaeth gwerin yn Iwerddon). Yn rhy aml, fe ffurfiolwyd ein cymanfaoedd canu gwerin ni, ond mi ges i'r fraint unwaith o glywed Elinor Dwyryd yn ei morio hi mewn congl o ystafell mewn gwesty tua diwedd rhyw wythnos Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y canu cyson drwy'r wythnos wedi mynd i'w gwaed hi, a'i galluogi i godi i entrychion teimlad, wrth agor llif-ddorau disgyblaeth ar sail sicrwydd ei hangoriad yn ei chrefft draddodiadol. Fel 'na y byddai Vic Parker ar noson fawr, ac y bu rhai o oreuon yr ŵyl ddiweddar, yn codi o lwybr cyfarwydd y dôn draddodiadol i ganu'n angerddol — o'r frest megis — ar eu tenor-sacs neu drombôn, piano neu dabyrddau, utgorn neu lais.

Wrth reswm, mae traddodiad yn beth byw, yn gallu tyfu a newid rhywfaint, yn null y *Modern Jazz Quarter* a Thelonious Monk, neu fel yn achos Côr Cerdd Dant neuadd Pontycelyn, ond erys y traddodiad: gwreiddiai *jazz* yn hysbys yng nghanu gwerin y negro, y pwyslais ar guriad a rhythm a theimlad, ac mae llawer yn dal i ganu'n ffyddlon i'r hen naws.

Cefais fy siomi ar yr ochr orau gan ymffrost llawer o'r datgeiniaid yn eu Cymreigrwydd, hyd yn oed un o'r prif sêr gwâdd, Dill Jones, yn Gymro glân o Gastell Newydd Emlyn. Ond doedd yna fawr o Gymraeg i'w weld, nac unrhyw ddefnydd o gerddoriaeth draddodiadol Cymru — hyd y clywais i beth bynnag. 'Choeliech chi byth, ond mae deunydd *jazz* ardderchog mewn hen ganeuon megis 'Dan y Garreg Las a'r Blodau' ac 'Ar Lan Hen Afon Ddyfrdwy Ddofn'.

Hwyrach na ddigwydd hyn nes y caiff *jazz*, yntau, ei lle mewn gwyliau megis yr Eisteddfod Genedlaethol. Mi dybiwn i y byddai hynny'n fodd i gyfoethogi honno hyd yn oed ymhellach, ac i ddwyn ein cymrodyr o ardaloedd hŷn ein dinasoedd, yn Gymry du a gwyn, yn nes at gyflawnder diwylliant Cymru.

HARRI PRITCHARD JONES

## DIOLCH

Diolch i Amgueddfa Werin Sain Ffagan am lun peiriant Bellis a Morcom a Phwmp Weir yn rhifyn Ebrill *Y Dinesydd*.

## CYN DYFOD Y PERIWIG!

Rhag i neb feddwl mai llun y Barnwr Watkin Powell yn y Llys oedd yn rhifyn Chwefror carem nodi mai darlun a dynnwyd gan HTV adeg darlledu'r gyfres "Llys y Goron" oedd.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf., Lower Cathedral Road, Caerdydd; Ffôn: (0222) 396262. C1314.*